Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 17 Hydref 2011**

Amser:
**14:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Steve George**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8242
CLA.Committee@wales.gov.uk

**Olga Lewis**
Dirprwy Glerc
029 2089 8154

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

### 2. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r penderfyniad negyddol

Dim

Offerynnau'r penderfyniad cadarnhaol

Dim

### 3. Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r penderfyniad negyddol

**CLA46 - Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011** (Tudalennau 1 - 17)
Gweithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Hydref 2011. Fe'u gosodwyd ar 4 Hydref

2011. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012

Offerynnau'r penderfyniad cadarnhaol

**Dim**

## 4. Gohebiaeth y Pwyllgor

**CLA20 - Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011** (Tudalennau 18 - 19)
CLA(4)-08-11(p1) – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 23 Medi 2011(Saesneg yn unig)
CLA(4)-08-11(p2) – Ymateb y Gweinidog dyddiedig 1 Hydref 2011(Saesneg yn unig)

**CLA31 - Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2011** (Tudalennau 20 - 27)
CLA(4)-08-11(p3) – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 27 Medi 2011
CLA(4)-08-11(p3) – Atodiad 1 (Adroddiad CLA31)
CLA(4)-08-11(p3) – Atodiad 2 (Adroddiad CLA32)
CLA(4)-08-11(p4) – Ymateb y Gweinidog dyddiedig 4 Hydref 2011(Saesneg yn unig)

**CLA42 - Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011** (Tudalennau 28 - 30)
CLA(4)-08-11(p5) – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 5 Hydref 2011(Saesneg yn unig)
CLA(4)-08-11(p6) – Ymateb y Gweinidog dyddiedig 11 Hydref 2011(Saesneg yn unig)

**CLA19 - Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011** (Tudalennau 31 - 35)
CLA(4)-08-11(p7) – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 27 Medi 2011
CLA(4)-08-11(p7) – Atodiad (Adroddiad CLA19)
CLA(4)-08-11(p8) – Ymateb y Gweinidog dyddiedig 10 Hydref 2011

**CLA17 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011** (Tudalennau 36 - 40)
CLA(4)-08-11(p9) – Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 27 Medi 2011
CLA(4)-08-11(p9) – Atodiad (Adroddiad CLA17)
CLA(4)-08-11(p10) – Ymateb y Gweinidog dyddiedig 11 Hydref 2011(Saesneg yn unig)

## 5. Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU

**Sesiwn dystiolaeth gyda David Davies AS a Paul Evans**
**David Davies AS,** Cadeirydd Pwyllgor Materion Cymru
**Paul Evans,** Clerc y Swyddfa Gyflwyno, Tŷ'r Cyffredin

## 6. Dyddiad y cyfarfod nesaf (Tudalennau 41 - 54)

Dogfennau ategol:

## 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

## 8. Trafod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hyd yma

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

(CLA(4)-08-11)

**CLA46**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau dyddiol safonol y caiff Gweinidogion Cymru eu hadennill am bob diwrnod—
(a) y bydd ymchwiliad lleol yn eistedd neu y bydd y person a benodwyd i gynnal yr ymchwiliad lleol wrthi rywfodd arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad lleol; neu
(b) y bydd y person a benodwyd i ymgymryd ag ymchwiliad cymwys neu, yn ôl fel y digwydd, gweithdrefn gymwys, wrthi yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad cymwys neu'r weithdrefn gymwys.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**Rhinweddau: craffu**

<u>Asesiad Effaith Rheoleiddiol</u>

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan mai bwriad y diwygiad yw cynyddu'r ffïoedd statudol. Fodd bynnag, pan uwchraddiwyd y ffïoedd hyn ddiwethaf (yn 2007), darparwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

<u>Cyfrifo lefelau newydd y ffi</u>

Nid oes gwybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio sut y cyfrifwyd y cynnydd mewn ffïoedd, cyfanswm yr incwm ychwanegol yr amcangyfrifir a gaiff ei godi o ganlyniad i'r cynnydd a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar gyllidebau a chronfeydd llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.

<u>Ystyriaeth gan y Pwyllgor</u>

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg esboniad o'r materion uchod yn y Memorandwm Esboniadol a'r diffyg Asesiad Effaith

Rheoleiddiol. Ym marn y Pwyllgor, pan fydd is-ddeddfwriaeth yn gosod ffïoedd newydd neu ychwanegol ar gyrff preifat neu gyhoeddus, neu unigolion, dylid cael esboniad hunangynhwysol i gyd-fynd â hi sy'n esbonio sut y cyfrifwyd y ffïoedd neu'r costau ychwanegol a beth fydd effaith ehangach y newidiadau ar y cyrff neu'r unigolion dan sylw. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn annigonol i'r diben hwn.

Cytunodd y Pwyllgor fod hyn yn codi pwynt polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad a chytunodd i ddwyn y mater i sylw'r Cynulliad mewn adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3(ii).

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Hydref 2011**

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2415(Cy. 261)

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu hawdurdodi i adennill oddi wrth awdurdodau lleol gostau a dynnwyd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad:

(a) ag ymchwiliadau a gynhelir o dan adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gan gynnwys ymchwiliadau gorchymyn prynu gorfodol, y cymhwysir darpariaethau perthnasol o'r adran honno iddynt gan adran 5 o Ddeddf Caffael Tir 1981) ac adran 69 o Ddeddf Draenio Tir 1991 ("ymchwiliadau lleol");

(b) ag ymchwiliadau cymwys fel y'u diffinnir gan adran 303A(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (ymchwiliadau a gynhelir mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unedol ac ystyriaeth o wrthwynebiadau i gynlluniau parth cynllunio syml) ("ymchwiliadau cymwys"); ac

(c) â gweithdrefnau cymwys fel y'u diffinnir gan adran 303A(1A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (archwiliadau annibynnol a gynhelir mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol ac ymchwiliadau mewn perthynas ag ystyriaeth o wrthwynebiadau i gynlluniau parth cynllunio syml) ("gweithdrefnau cymwys").

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau dyddiol safonol y caiff Gweinidogion Cymru eu hadennill am bob diwrnod—

(a) y bydd ymchwiliad lleol yn eistedd neu y bydd y person a benodwyd i gynnal yr ymchwiliad lleol wrthi rywfodd arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad lleol; neu

(b) y bydd y person a benodwyd i ymgymryd ag ymchwiliad cymwys neu, yn ôl fel y digwydd, gweithdrefn gymwys, wrthi yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad cymwys neu'r weithdrefn gymwys.

Y swm dyddiol safonol mewn perthynas ag ymchwiliadau lleol sy'n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 yw £742. Mae'r swm hwn yn disodli'r swm o £722, a ragnodwyd gan Reoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/728) (Cy.64) ("Rheoliadau 2007") ar gyfer ymchwiliadau a agorwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007.

Y swm dyddiol safonol mewn perthynas ag ymchwiliadau cymwys sy’n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 yw £679. Yr un swm yw hwn ag a ragnodwyd yn flaenorol gan Reoliadau 2007 ar gyfer ymchwiliadau cymwys a agorwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007.

Y swm dyddiol safonol mewn perthynas â gweithdrefnau cymwys sy’n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 yw £679. Mae'r swm hwn yn disodli'r swm o £640, a ragnodwyd gan Reoliadau 2007 ar gyfer gweithdrefnau cymwys a agorwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007.

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2007, ond yn gwneud arbedion mewn perthynas ag ymchwiliadau lleol ac ymchwiliadau cymwys a agorodd cyn 1 Ebrill 2012 ac sy’n parhau’n agored, ac mewn perthynas â gweithdrefnau cymwys a gychwynnodd cyn 1 Ebrill 2012 ac sy’n parhau.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2415(Cy. 261)

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF,CYMRU

## Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Hydref 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *4 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2012.* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd:

(a) gan adran 42(4) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 ("Deddf 1986")(**1**) i unrhyw Weinidog a awdurdodwyd, o dan neu yn rhinwedd y darpariaethau statudol hynny a bennir yn adran 42(1)(**2**) o'r Ddeddf honno neu y cymhwysir yr adran honno iddynt(**3**), i

(**1**) 1986 p.63.

(**2**) Diddymwyd adran 42(1)(b) gan Ran I o Atodlen 3 i Ddeddf Cydgyfnerthu Dŵr (Darpariaethau Canlyniadol) 1991 (p.60) a diddymwyd adran 42(1)(d) gan Ran 2 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Diddymwyd adran 129(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p.27) (costau ymchwiliad o dan y Ddeddf honno), y cyfeirir ati yn adran 42(1)(c) o Ddeddf 1986, gan Atodlen 3 i Ddeddf Ymchwiliadau 2005 (p.12).

(**3**) Mae adran 69(7) o Ddeddf Draenio Tir 1991 (p.59) ("Deddf 1991") yn darparu bod adran 42 o Ddeddf 1986 yn gymwys pan fo'r naill neu'r llall o "the Ministers" wedi ei awdurdodi gan adran 69(5) o Ddeddf 1991 i adennill costau a dynnwyd gan y Gweinidog hwnnw mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir gan y Gweinidog, fel y mae'n gymwys pan awdurdodir Gweinidog yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad a bennir yn adran 42(1) o Ddeddf 1986. *Gweler* adran 72(1) o Ddeddf 1991 a Gorchymyn y Weinyddiaeth

adennill costau a dynnir gan y Gweinidog mewn perthynas ag ymchwiliad, sef pwerau sy'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru(**1**);

(b) i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303A(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990")(**2**), ac sy'n arferadwy bellach, o ran ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol penodol o fewn Cymru, gan Weinidogion Cymru(**3**); ac

(c) i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel yr awdurdod priodol, gan adran 303A(5) o Ddeddf 1990(**4**), sef pwerau sy'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru(**5**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "gweithdrefn gymwys" yw gweithdrefn gymwys o fewn yr ystyr sydd i'r term "*qualifying*

---

Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794) am diffiniad o "the Ministers" h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

(**1**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adran 42 o Ddeddf 1986 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy.5)) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw, i'w harfer mewn perthynas â Chymru yn gydredol ag unrhyw Weinidog y Goron. Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**2**) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 303A yn Neddf 1990 gan adran 1(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995 (p.49), a diddymwyd y Ddeddf honno gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 2008 (p.12).

(**3**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adran 303A(5) o Ddeddf 1990 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i hamrywiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000. Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**4**) Diwygiwyd adran 303A(5) mewn perthynas ag ardaloedd awdurdodau cynllunio penodol yng Nghymru gan adran 118(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) a pharagraff 11 o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

(**5**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

*procedure*” yn adran 303A(1A) o Ddeddf 1990(**1**), ac a gynhelir mewn perthynas ag ardal awdurdod cynllunio lleol y mae'r diddymiadau a bennir yn Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 yn effeithiol mewn cysylltiad ag ef yn unol ag erthygl 2(g) o'r Gorchymyn hwnnw;

ystyr “ymchwiliad cymwys” yw ymchwiliad cymwys o fewn yr ystyr sydd i'r term “*qualifying inquiry*” yn adran 303A(1) o Ddeddf 1990 (i'r graddau y mae'r adran honno'n parhau i fod ag effaith heb y diwygiad a fewnosodir gan adran 118 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (“Deddf 2004”) a pharagraff 11(2) o Atodlen 6 i’r Ddeddf honno), ac a gynhelir mewn perthynas ag ardal awdurdod cynllunio lleol y mae'r darpariaethau a bennir yn Atodlen 2 i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005(**2**) yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad ag ef yn unol ag erthygl 3(3) o'r Gorchymyn hwnnw;

ystyr “ymchwiliad lleol” (“*local inquiry*”) yw ymchwiliad y mae gan Weinidogion Cymru hawl i adennill eu costau mewn perthynas ag ef o dan neu yn rhinwedd adran 250(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**) (darpariaeth gyffredinol o ran costau ymchwiliadau) neu adran 69(5) o Ddeddf Draenio

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 303(1A) yn Neddf 1990 gan adran 118 o Ddeddf 2004 a pharagraff 11 o Atodlen 6 i’r Ddeddf honno.

(**2**) O.S. 2005/2847 (C.118). Drwy erthygl 2(e) o'r Gorchymyn, daeth y diwygiad i adran 303A o Ddeddf 1990, a wnaed gan Ddeddf 2004, i rym o ran Cymru ar 12 Hydref 2005. Fodd bynnag, drwy erthygl 3(3) o'r Gorchymyn hwnnw, mae darpariaethau adran 303A fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995 yn parhau i fod mewn grym mewn perthynas â'r ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol hynny y mae'r darpariaethau yn Neddf 1990 sy'n ymwneud â pharatoi, newid ac amnewid cynlluniau datblygu unedol yn parhau i fod yn gymwys iddynt. Effaith gyffredinol y darpariaethau niferus y cyfeirir atynt uchod yw, pan fo awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru yn ddarostyngedig i gyfundrefn y cynllun datblygu lleol, cynhelir archwiliad annibynnol a bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i ragnodi swm dyddiol safonol mewn perthynas â’r archwiliad annibynnol. Pan fo awdurdod cynllunio lleol yn parhau’n ddarostyngedig i gyfundrefn y cynllun datblygu unedol, fodd bynnag, cynhelir ymchwiliad lleol pan fo’n briodol, a bydd Gweinidogion Cymru yn parhau â phŵer i ragnodi swm dyddiol safonol mewn perthynas â’r ymchwiliad lleol.

(**3**) 1972 p.70. Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adran 250(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y’i hamrywiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000. Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Tir 1991(1) (costau ymchwiliad o dan y Ddeddf honno).

**Y personau, yr ymchwiliadau a'r gweithdrefnau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt**

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran—

(a) ymchwiliad lleol; a

(b) unrhyw berson sydd wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad cymwys, neu wedi'i benodi fel un o'r personau a benodwyd felly, ac sydd i gynnal ymchwiliad cymwys; ac

(c) unrhyw berson sydd wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru i gynnal gweithdrefn gymwys.

**Y swm dyddiol safonol ar gyfer ymchwiliadau lleol**

**4.** Y swm dyddiol safonol a ragnodir yn unol ag adran 42(4) o Ddeddf 1986 ar gyfer ymchwiliad lleol sy'n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 yw £742.

**Y swm dyddiol safonol ar gyfer ymchwiliadau cymwys**

**5.** Y swm dyddiol safonol a ragnodir yn unol ag adran 303A(5) o Ddeddf 1990 ar gyfer ymchwiliad cymwys sy'n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 yw £679.

**Y swm dyddiol safonol ar gyfer gweithdrefnau cymwys**

**6.** Y swm dyddiol safonol a ragnodir yn unol ag adran 303A(5) o Ddeddf 1990 ar gyfer gweithdrefn gymwys sy'n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 yw £679.

**Dirymiadau ac arbedion**

**7.** Dirymir Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007(2) ac eithrio mewn perthynas ag ymchwiliad yr oedd y Rheoliadau hynny yn gymwys iddo, a agorodd cyn 1 Ebrill 2012 ac sy'n parhau'n agored ar ôl y dyddiad hwnnw ac mewn perthynas â gweithdrefn gymwys a gychwynnodd cyn 1 Ebrill 2012 ac sy'n parhau ar ôl y dyddiad hwnnw.

(1) 1991 p.59.
(2) O.S. 2007/728 (Cy.64).

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy,
un o Weinidogion Cymru

3 Hydref 2011

**Explanatory Memorandum to Tribunals and Inquiries, Wales Town and Country Planning, Wales, The Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2011**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Environment and Sustainable Development and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of Tribunals and Inquiries, Wales Town and Country Planning, Wales, The Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2011

***John Griffiths***
**Minister for Environment and Sustainable Development**
**3 October 2011**

## 1. Description

Planning Inspectorate Wales Inspectors carry out a wide range of work and for some of this work, which it undertakes on behalf of a local planning authority (lpa), the Inspectorate charges for providing an Inspector. This includes Local Development Plan examinations and work on Compulsory Purchase Orders. These Regulations allow for the current fees to be increased.

## 2. Matters of special interest to the Constitutional Affairs Committee

There are none.

## 3. Legislative background

The powers enabling this Instrument to be made are set out in Section 303A of the Town and Country Planning Act 1990, as inserted by Section 1 of the Town and Country Planning (Costs of Inquiries etc.) Act 1995. The power to make Regulations applying the right to recover costs incurred by the Minister in relation to an inquiry and prescribing the standard daily amount is set out in Sections 42(1) and (4) of the Housing and Planning Act 1996. These powers are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

This statutory instrument follows the negative resolution procedure.

## 4. Purpose & intended effect of the legislation

The Planning Inspectorate is an Agency of the Welsh Government and the Department for Communities and Local Government. Its work in Wales is funded by the Welsh Government.

Although Planning Inspectors are associated primarily with the planning appeal process they carry out a wide range of work; for some of this work the Inspectorate charges the Local Planning Authority for providing an Inspector. This includes Local Development Plan examinations and Compulsory Purchase Orders. In accordance with the direction contained in the Treasury Fees and Charges Guide Government, agencies are required to aim to recover the full costs of their rechargeable activities. Consequently, there is a need to revise these fees.

In May 2009 the then Welsh Assembly Government sought the views of the Welsh Local Government Association, the Royal Town Planning Institute, the Royal Institution of Chartered Surveyors, the Planning Officers' Society Wales and local planning authorities on a proposal to increase the daily fees for local development plan work and for other rechargeable work by Planning Inspectors. Taking account of the comments received the Minister for Environment Sustainability and Housing agreed that the charges should be increased as per the proposal.

The Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2007 provided that the daily rate to be paid

by a local planning authority to the Planning Inspectorate for providing an Inspector to hold an inquiry, opened on or after 1st April 2007 (Statutory Instrument 2007 No.728 (W.64)) into compulsory purchase orders, etc made under various enactments shall be £722. These regulations now need to be amended in order to progress towards full costs recovery and the daily rate will need be increased by £20 to £742 per day.

Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 provides for a reformed development plan system. With effect from Autumn 2005 local planning authorities are required to prepare and maintain up-to-date local development plans. These are examined by Planning Inspectors and the daily rate for full costs recovery in relation to those examinations was previously set at £640 by the Local Inquiries, Qualifying Inquiries and Qualifying Procedures (Standard Daily Amount) (Wales) Regulations 2007. This rate will be increased by £39 to £679.

**5. Consultation**

On 13 May 2009 the then Welsh Assembly Government sought the views of the Welsh Local Government Association, the Royal Town Planning Institute, the Royal Institution of Chartered Surveyors, the Planning Officers' Society Wales and local planning authorities on a proposal to increase the daily fees for local development plan work and for other rechargeable work by Planning Inspectors. The consultation lasted six weeks and focussed on organisations directly affected by the proposals.

Eight responses were received from Ynys Mon County Council, Cardiff County Council, Vale of Glamorgan Council, Caerphilly County Borough Council, Darren Millar AM, Brecon Beacons NPA, Pembrokeshire County Council and City and County of Swansea. Most respondents, although not happy with the increases, understood why they were being proposed and were generally supportive of them as they were in line with inflation. Darren Millar AM felt that there should be no increase at all due to the financial challenges faced by Local Authorities. Apart from the increases in fees no other changes were made to the Regulations as a result of the consultation responses.

Taking account of the comments received, the then Minister for Environment Sustainability and Housing agreed to amend the current Regulations to reflect the increase in charges that were outlined in the above consultation.

**6. Regulatory Impact Assessment (RIA)**

Not required as the revision of the Regulation is to make increases in statutory fees.

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Alun Davies AM,
Deputy Minister for Agriculture,
Fisheries, Food and European
Programmes,
Welsh Government,
5th Floor, Tŷ Hywel,
Cardiff Bay,
CF99 1NA.

23 September 2011

Dear Alun,

**CLA20 - The Beef and Pig Carcase Classification (Wales) Regulations 2011**

The Constitutional and Legislative Affairs Committee considered the above Statutory Instrument at its meeting on 19 September 2011. A copy of Committee's report on the Regulations is attached for information.

The Committee was grateful for the Government's willingness to correct the two technical reporting points identified, the first upon publication and the second by way of an amendment to the regulations. However, the Committee would be grateful if you could clarify the proposed timescale for bringing forward the amending regulations to correct the technical reporting point in respect of Regulation 2(1).

Yours sincerely

**David Melding AM**
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee

**Alun Davies AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**
**Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CLA20
Ein cyf/Our ref AD-/05239/11

David Melding AM
Chair - Constitutional & Legislative Affairs Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

Dear David,

1 October 2011

**THE BEEF AND PIG CARCASE CLASSIFICATION (WALES) (AMENDMENT) REGULATIONS 2011**

Thank you for your letter dated 23 September 2011 asking for the clarification of the proposed timescale for bringing forward the amending Beef and Pig Carcase Classification (Wales) Regulations 2011.

Welsh Government officials are currently drafting The Beef and Pig Carcase Classification (Wales) (Amendment) Regulations 2011 with a view to introducing the Regulations in the next few months.

Best wishes

**Alun Davies AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Mr Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2011

Annwyl Weinidog

**CLA31 - Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2011**

**A**

**CLA32 – Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod yr offerynnau statudol uchod yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiadau'r Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offerynnau hyn ar y sail "eu bod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu eu bod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiadau'r Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2011, ac maent wedi'u hatodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Byddwch yn sylwi bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod erthygl 5 y Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth anghyffredin sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach am y Gorchymyn heb yr angen i gyflwyno Gorchymyn diwygio y byddai'r Cynulliad yn gallu craffu arno. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael eglurhad ynghylch a oes unrhyw fwriad gan Weinidogion ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau o dan erthygl 5? Os yw'r pŵer yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol, a fyddech yn ystyried hybsyu Aelodau'r Cynulliad drwy gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y mater?

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-05-11)**

**CLA31**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Yn ôl adran 108(2)(b)(iii) o Ddeddf Addysg 2002 gall Gweinidogion Cymru bennu'r trefniadau asesu y maent yn ystyried yn briodol ar gyfer y cyfnod sylfaen drwy orchymyn. Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu'r trefniadau hynny.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rhinweddau: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii) gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn - (ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae erthygl 5 yn cynnwys y ddarpariaeth anarferol ganlynol –
"Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi effaith lawn i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn neu'n ychwanegu atynt rywfodd arall (ac eithrio darpariaeth sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau fel a grybwyllir yn adran 108(6) o Ddeddf 2002) ac sy'n ymddangos yn hwylus iddynt."

Y pŵer galluogi yw adran 108(11) o Ddeddf Addysg 2002, sydd fel a ganlyn:-

"An order under subsection (2)(b)(iii) or (3)(c) may authorise the making of such provisions giving full effect to or otherwise supplementing the provisions made by the order (other than provision conferring or imposing functions as mentioned in subsection (6) or (7)) as appear to the Welsh Ministers to be expedient; and **any provisions made <u>under</u> such an order shall, on being published as specified in the order, have effect for the purposes of this Part as if made by the order."**

O ganlyniad bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud darpariaethau pellach i roi'r Gorchymyn presennol ar waith yn llawn neu ychwanegu at ei ddarpariaethau, heb orfod gwneud gorchymyn diwygio a fyddai'n destun craffu i'r Cynulliad. Serch hyn, defnyddiwyd y pŵer hwn gan y Cynulliad ar sawl achlysur (yn wreiddiol rhoddwyd y pŵer i'r Cynulliad) a gan Weinidogion Cymru (trosglwyddwyd y pŵer i Weinidogion Cymru yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

Nid yw hyn yn ddefnydd anarferol nac annisgwyl o'r pŵer yn adran 108(11), sydd i'w nodi o dan Reol Sefydlog 21.2(ii), ond mae'n bŵer anarferol, ac felly yn un pwysig.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**19 Medi 2011**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-05-11)**

**CLA32**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

## Teitl: Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011

**Gweithdrefn: Negyddol**

O dan adran 108(2)(b)(iii) o Ddeddf Addysg 2002, caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn unrhyw drefniadau asesu sydd, yn eu barn hwy, yn briodol i'r cyfnod sylfaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu y caiff disgyblion eu hasesu yn y flwyddyn olaf o'r cyfnod sylfaen gan athro neu athrawes, ac mae'n nodi diben yr asesiadau hynny.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rhinweddau: craffu**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn - (ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae erthygl 5 yn cynnwys y ddarpariaeth anarferol ganlynol –
"Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi effaith lawn i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn neu'n ychwanegu atynt rywfodd arall (ac eithrio darpariaeth sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau fel a grybwyllir yn adran 108(6) o Ddeddf 2002) ac sy'n ymddangos yn hwylus iddynt."

Y pŵer galluogi yw adran 108(11) o Ddeddf Addysg 2002, sydd fel a ganlyn:-

"An order under subsection (2)(b)(iii) or (3)(c) may authorise the making of such provisions giving full effect to or otherwise supplementing the provisions made by the order (other than provision conferring or imposing functions as mentioned in subsection (6) or (7)) as appear to the Welsh Ministers to be expedient; and **any provisions made <u>under</u> such an order shall, on being published as specified in**

**the order, have effect for the purposes of this Part as if made by the order."**

O ganlyniad bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud darpariaethau pellach i roi'r Gorchymyn presennol ar waith yn llawn neu ychwanegu at ei ddarpariaethau, heb orfod gwneud gorchymyn diwygio a fyddai'n destun craffu i'r Cynulliad. Serch hyn, defnyddiwyd y pŵer hwn gan y Cynulliad ar sawl achlysur (yn wreiddiol rhoddwyd y pŵer i'r Cynulliad) a gan Weinidogion Cymru (trosglwyddwyd y pŵer i Weinidogion Cymru yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

Nid yw hyn yn ddefnydd anarferol nac annisgwyl o'r pŵer yn adran 108(11), sydd i'w nodi o dan Reol Sefydlog 21.2(ii), ond mae'n bŵer anarferol, ac felly yn un pwysig.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**19 Medi 2011**

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CLA31
Ein cyf/Our ref LA/06014/11

David Melding AM
Chair - Constitutional and Legislative Affairs Committee

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

4 October 2011

Dear David,

**CLA31 – the National Curriculum (Assessment Arrangements on Entry to the Foundation Phase) (Wales) Order 2011**

**And;**

**CLA32 – the National Curriculum (End of Foundation Phase Assessment Arrangements and Revocation of the First Key Stage Assessment Arrangements) (Wales) Order 2011**

Thank you for your letter of 27 September when you provided the Constitutional and Legislative Affairs Committee reports on the above Statutory Instruments.

I note that the Committee agrees that the power in article 5 of the National Curriculum (Assessment Arrangements on Entry to the Foundation Phase) (Wales) Order 2011 and in the National Curriculum (End of Foundation Phase Assessment Arrangements and Revocation of the First Key Stage Assessment Arrangements) (Wales) Order 2011 is within the scope of section 108(11) of the Education Act 2002. I also note that the inclusion of the article 5 power in an order setting out assessment arrangements for the National Curriculum is not unusual. For example, this power is included in the National Curriculum (Key stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004 (S.I. 2004/2915) and also the National Curriculum (Key stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1393). Indeed, earlier orders (now revoked) made under the Education Reform Act 1988 and the Education Act 1996 setting out the assessment arrangements for the Key Stages in the National Curriculum also contained this provision. I am not aware that the inclusion of this power in such orders has not been subject to similar comment previously.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

I note you state that whilst the use of the power is not unusual, you consider the power is itself unusual and therefore important. Whilst I agree the power is important and not that common, I would draw your attention to the fact that there is similar power for the Secretary of State to make such provision in section 87(11) and (12) of the Education Act 2002. In light of the above I consider the use of the power in the Order to be appropriate.

I do not currently have any plans to make use of the powers under article 5, but any future provision made under the power will be published on the internet.

Yours sincerely

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Lesley Griffiths AM
Minister for Health and Social Services
Welsh Government
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

5 October 2011

Dear Lesley

**CLA42 - The Protection from Tobacco (Sales from Vending Machines) (Wales) Regulations 2011**

The Constitutional and Legislative Affairs Committee considered the above Statutory Instrument at its meeting on 3 October 2011.

The Committee noted that the regulations come into effect on 1 February next year but that the equivalent regulations came into effect in England on 1 October this year.

Welsh Government spokespersons have explained that the delay in Wales was due to legal challenges to the equivalent regulations in England. The Committee would be grateful if you could confirm that this is the reason for the delay and why it is that legal action has delayed the introduction of the Welsh regulations but not the regulations that were the subject of the legal challenge?

I understand that these regulations are to be debated in Plenary on 18 October. It would be helpful to Plenary consideration of the regulations if you could reply before the Plenary debate and if your reply could be made available to all Assembly Members as a supporting document for the debate.

Yours sincerely

**David Melding AM**
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AM
Chair
Constitutional and Legislative
Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

11th October 2011

Dear David

Thank you for your letter of 5 October concerning the coming into force date of the Protection from Tobacco (Sales from Vending Machines) (Wales) Regulations 2011.

The Welsh Government consulted on the draft regulations in April 2010, which included a proposed coming into force date of 1 October 2011. However, legal challenges from the tobacco industry have raised timetabling issues.

In February 2010 Sinclair Collis, a tobacco vending machine operator and subsidiary of Imperial Tobacco, wrote to the Department of Health indicating that they intended to apply for a judicial review of section 22 of the Health Act 2009. After an exchange of correspondence with the Department of Health, Sinclair Collis made an application for judicial review. Section 22 of the Health Act 2009 is the section which gives the Secretary of State in relation to England, and Welsh Ministers in relation to Wales, the power to ban the sale of tobacco from vending machines. Sinclair Collis argued that section 22 of the Act breaches article 34 of the Treaty on the Functioning of the European Union (TEFU), as a ban on tobacco vending machines would constitute a restriction, without justification, on the free movement of goods between European Union Member States and, as such, would infringe article 34. They further argued that such a ban would amount to an unjustified interference with the property of Sinclair Collis contrary to Article 1 to the First Protocol of the European Convention on Human Rights.

Sinclair Collis also submitted a second application for judicial review challenging the making of the Tobacco (Sales from Vending Machines) (England) Regulations 2010. The two applications were consolidated.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

If the Welsh Ministers had made the Protection from Tobacco (Sales from Vending Machines) (Wales) Regulations before the judicial review proceedings were concluded, it was anticipated that Welsh Ministers would be joined as a party to the judicial review action that was ongoing against the Secretary of State. The reason for this view is that the Welsh Regulations are identical in content and rely upon the same legal powers as those of the Secretary of State. The disadvantage to being added as a party to the proceedings would be the considerable legal costs that would be incurred in defending the judicial review action. Further, if the judicial review action had been successful any Regulations made under section 22 of the Health Act 2009 would have been quashed.

In view of the uncertainties raised by the judicial review proceedings and the desirability of avoiding Welsh Ministers' involvement in these proceedings, no action was taken to make the Welsh Regulations until the outcome of the judicial review was known. As the Judicial Review action completed in August, when Sinclair Collis' application to take their case to the Supreme Court was turned down, Welsh Ministers decided to bring forward the Regulations banning the sale of tobacco from vending machines in Wales. In the consultation report the Welsh Government committed to allowing appropriate time for businesses to implement the legislation and as such it is proposed for the Regulations to come into force 1 February 2012.

I am happy for this reply to be used in support of the debate on 18 October and I will arrange for it to be made available as a supporting document on the agenda.



**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Mr Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2011

Annwyl Weinidog

**CLA19 - Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau hyn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eglurhad o'r amserlen a'r lleoliad ar gyfer cynllun peilot y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth y mae'r rheoliadau yn ei hyrwyddo, ac a ydych yn bwriadu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y cynllun peilot i Aelodau'r Cynulliad?

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir



**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

(CLA(4)-05-11)

**CLA19**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005 drwy newid y diffiniad o "Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru" yn rheoliad 3(2) o'r rheoliadau hynny. Bydd gofynion y "Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru" yn newid o gwblhau cwrs hyfforddiant a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru i gyflawni safonau penodol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

**Craffu technegol**

Ni wahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 21.2.

**Craffu ar rinweddau**

O dan Reol Sefydlog 21.3, gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn canlynol:-

Daw'r offeryn hwn yn sgîl adroddiad Estyn ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru, ac yn sgîl gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru. Daeth adroddiad Estyn i'r casgliad fod y cymhwyster yn aneffeithiol a:

- bod nifer y rheini sydd wedi ennill y cymhwyster yn fwy o lawer na nifer y swyddi prifathro/prifathrawes; ac
- nad yw'r broses ddethol o reidrwydd yn dewis y bobl sydd fwyaf addas i fod yn brifathrawon; a
- bod angen diwygio cynnwys y rhaglen.

Nododd y *Times Educational Supplement* fod undebau'r athrawon yn croesawu'r newidiadau i'r cymhwyster a'u bod ar yr un pryd yn mynegi pryder y gellid cael effaith andwyol ar nifer y prifathrawon cymwys pe na bai rhywbeth yn cael ei gyflwyno'n ddi-oed i gymryd lle'r cymhwyster. Mynegwyd pryder hefyd am gyllid ar gyfer hyfforddiant

ym maes arweinyddiaeth. Wrth ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd y cyllid ar gyfer y cymhwyster yn cael ei dynnu'n ôl ac y byddai'r ymgeiswyr cyfredol yn cwblhau'r rhaglen. Dechreuwyd cynllun peilot ar y cymhwyster diwygiedig yn gynharach eleni.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**19 Medi 2011**

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref cla19
Ein cyf/Our ref LA/06016/11

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

20 Hydref 2011

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi ynghylch Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) (Diwygio) 2011.

Y llynedd, adolygodd swyddogion y trefniadau ar gyfer safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer gweithlu ysgolion Cymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen newid trefniadau cyfredol Cymru yn sylweddol. O ran arwain ysgolion, cytunwyd bod angen datblygu dull gweithredu newydd ar gyfer y rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yng Nghymru i sicrhau ei bod yn fwy trwyadl, heriol a chadarn. Roedd hyn yn gyson â chanlyniadau'r Adroddiad Estyn yr ydych wedi cyfeirio ato.

Yn ystod y cyfnod peilot caiff y CPCP ei ddyfarnu ar sail asesiad trylwyr o ymarfer yn erbyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth. Dylai'r dull hwn helpu i sicrhau bod yr ymgeiswyr hynny sy'n ennill y cymhwyster yn gallu dangos bod ganddynt y sgiliau, y safonau a'r priodoleddau sydd eu hangen, a'u bod yn barod i fod yn benaethiaid.

Mae 33 o ymgeiswyr ledled Cymru yn rhan o'r cynllun peilot sy'n symud ymlaen yn dda o ran yr amserlen a'r adborth. Cynhelir Canolfannau Asesu ym mhob un o'r pedwar Consortiwm rhanbarthol rhwng 10 a 14 Hydref. Yn dilyn proses gymedroli genedlaethol, caiff y CPCP ei ddyfarnu i'r ymgeiswyr llwyddiannus ym mis Ionawr 2012. (Yn unol â'r amserlen, graddiodd y garfan olaf o benaethiaid drwy'r model blaenorol yn ystod yr haf eleni.)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r rhaglen ar gyfer cyflwyno'r dull newydd yn llawn yn sicrhau darpariaeth ddi-dor a chyn bo hir gwahoddir ceisiadau am y flwyddyn academaidd hon. Bydd y broses ymgeisio yn digwydd cyn diwedd y peilot a bydd yr ymgeiswyr hynny a ddewisir ar gyfer y cynllun, ac sydd wedyn yn llwyddo yn eu hasesiadau, yn ennill y CPCP cyn diwedd tymor yr haf 2012 – sy'n cyfateb o ran yr amserlen i'r hyn fyddai wedi digwydd o dan y trefniadau blaenorol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd yr un ymgeisydd o dan anfantais a bod y broses o gymhwyso penaethiaid yn parhau yn ddi-dor.

Rydym yn gwerthuso elfennau unigol y peilot wrth inni fynd ymlaen er mwyn llywio'r trefniadau ar gyfer elfennau cyfatebol y broses gyflwyno.

Byddaf, wrth gwrs, yn diweddaru'r Pwyllgor am y cynllun peilot a'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r dull newydd yn llawn wrth i'r rheiny gael eu cadarnhau yn sgil gwerthuso'r peilot yn gyffredinol.

Yn gywir

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Mrs Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2011

Annwyl Weinidog

**CLA17 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael clywed a ydych yn fodlon bod yr oedi wrth roi Rhan 7 o'r prif Reoliadau ar waith yn ddigonol i alluogi'r trefniadau gweithredol manwl gael eu cytuno â chyrff y GIG ym mannau eraill y Deyrnas Unedig.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir



**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

(CLA(4)-05-11)

**CLA17**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau, Pryderon, Cwynion ac iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y prif Reoliadau").
Mae rheoliad 2(1) yn gohirio'r dyddiad y daw Rhan 7 o'r prif Reoliadau i rym, o 1 Hydref 2011 tan 1 Ebrill 2012. Mae Rhan 7 o'r prif Reoliadau yn ymdrin â'r modd y mae iawn i'w ddarparu pan fo Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru neu Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn ymuno mewn trefniant i ddarparu gwasanaethau iechyd gyda chorff GIG yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.2, ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**Rhinweddau: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii), ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad fel a ganlyn.

Cefndir

*Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2008* oedd y Mesur Cynulliad cyntaf i gael ei basio gan y Cynulliad. Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau sy'n caniatáu ar gyfer gwneud iawn mewn amgylchiadau pan fydd atebolrwydd cymwys mewn camwedd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cymwys. Gall gwneud iawn gynnwys ymddiheuro, eglurhad, camau gweithredu, camau unioni ac, os yw'n briodol, iawndal ariannol.

Y gyfres gyntaf o reoliadau a gafodd eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn oedd *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011* ("y prif reoliadau"), a osodwyd gan Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ar 7 Chwefror 2011.

Diben y prif reoliadau yw ei gwneud yn haws i gleifion fynegi pryderon os nad ydynt yn fodlon neu os oes problemau â'u gofal yn y GIG. Byddant hefyd yn sicrhau bod ymagwedd y GIG at sefyllfaoedd o'r fath yn fwy cyson ac yn arwain at ganlyniadau tecach i gleifion a staff.

Yn 2007, cymerodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, fel y'i gelwid bryd hynny, dystiolaeth ar y Mesur a chyflwynodd adroddiad arno. Roedd y Pwyllgor yn argymell y dylid cael **lefel gryf o waith craffu ar gyfer Rheoliadau a wneir o dan y Mesur ac y dylid cael ymgynghoriad eang arnynt.**

Cafodd y prif reoliadau eu hystyried gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Trydydd Cynulliad ar 17 Chwefror 2011. Cyflwynodd y pwyllgor hwnnw adroddiad ar rinweddau'r prif reoliadau a gwnaeth y sylwadau a ganlyn:

> *"Rydym wedi ystyried y Rheoliadau presennol mewn perthynas â'r materion a godwyd uchod, yn enwedig a fu digon o ymgynghori ynghylch y rheoliadau ac a yw'r Rheoliadau fel y'u cyflwynwyd yn adlewyrchu'n ddigonol y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad …*
>
> *Er y credwn fod y pryderon cyffredinol ynghylch Mesurau 'Fframwaith' yn parhau i fod yn rhai dilys (ac er ein bod yn nodi'r amser sylweddol a aeth heibio ers pasio'r Mesur), rydym yn fodlon y bu'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau draft hyn yn drylwyr a chynhwysol a'i fod wedi ymateb i'r pryderon a godwyd."*

Roedd y prif reoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a chawsant eu cymeradwyo gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth 2011. Daethant i rym ar 1 Ebrill 2011, ac eithrio darpariaethau yn Rhan 7 o'r rheoliadau y bwriadwyd iddynt ddod i rym, yn wreiddiol, ar 1 Hydref 2011.

Cafodd *Rheoliadau'r Gwasanaeth iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011* ("y rheoliadau diwygio") eu cyflwyno gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 12 Gorffennaf 2011.

Diben diwygio'r rheoliadau yw gohirio'r dyddiad y daw Rhan 7 o'r prif Reoliadau i rym, o 1 Hydref 2011 tan 1 Ebrill 2012.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen hyn er mwyn caniatáu i gyrff GIG Cymru a gweddill y DU gytuno ar fanylion y trefniadau gweithrediadol. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol a ddaw gyda'r Rheoliadau:

> *"The reason for this change is to allow more time for this work to be completed since the initial assessment that a coming into force date of 1 October 2011 would be sufficient time to agree these amendments, is not now achievable."*

Gwneir newid arall i reoliad 52(5) o'r prif reoliadau i adlewyrchu'r dyddiad newydd y bydd Rhan 7 o'r Rheoliadau yn dod i rymac mae'n ei gwneud yn glir na fydd y trefniadau trawsffiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 7 yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan gyrff y GIG yn Lloegr, yr Alban na Gogledd Iwerddon ar ran cyrff y GIG yng Nghymru cyn 1 Ebrill 2012.

Ystyriaeth gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Er ein bod yn cytuno â Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Trydydd Cynulliad bod y prif reoliadau yn adlewyrchu'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn ddigonol, mae cyflwyno rheoliadau diwygio yn awgrymu efallai nad oedd digon o ymgynghoriad â chyrff y GIG mewn rhannau eraill o'r DU mewn cysylltiad â materion trawsffiniol.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**19 Medi 2011**

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CLA17
Ein cyf/Our ref LG/06525/11

David Melding AM
Chair
Constitutional & Legislative Affairs Committee

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

11th October 2011

Dear David,

Thank you for your letter of 27 September and for the Committee's report on the merits of the National Health Service (Concerns, Complaints and Redress Arrangements) (Wales) (Amendment) Regulations 2011.

Whilst I note your view that the introduction of the amending regulations suggests that there may have been insufficient consultation with NHS bodies in other parts of the UK in relation to cross-border issues, I do not agree.

There was a technical consultation on the cross border aspects of the Regulations in September 2010 and officials also entered into correspondence with the Department of Health (DH) and the NHS Litigation Authority (NHSLA) who indicated they were broadly content with the proposed Regulations and willing to work with officials to agree the practical details. Much of the cross border detail needs to be contained in commissioning agreements and guidance, rather than on the face of the Regulations which in this instance provide a framework.

Following officials' meeting with the DH and NHSLA, and their subsequent advice on the timescales needed to work up the practical details, I agreed to make an amendment to the Regulations. I am advised work is underway, that a group has been set up to consider the details and that the intention is for guidance to be prepared in draft form towards the end of the year. This will be considered by the group and finalised for roll out to English and Welsh NHS bodies in time for the coming into force date on 1 April 2012.

Regards
Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-07-11 : 10 Hydref 2011**

**Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:**

**Offerynnau nad ydynt yn arwain at faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r penderfyniad negyddol**

**CLA44 - Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed:** 28 Medi 2011
**Fe'u gosodwyd:** 28 Medi 2011
**Yn dod i rym:** 19 Hydref 2011

**CLA45 - Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed:** 28 Medi 2011
**Fe'u gosodwyd:** 28 Medi 2011
**Yn dod i rym:** 19 Hydref 2011

**Offerynnau sy'n arwain at faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r penderfyniad negyddol**

**CLA43 - Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed:** 27 Medi 2011
**Fe'u gosodwyd:** 28 Medi 2011
**Yn dod i rym:** yn unol â rheoliad 31

Cytunodd y Pwyllgor ar y pwyntiau adrodd ar yr offeryn statudol hwn o dan Reol Sefydlog 21.3. Ceir copi ohono yn Atodiad 1.

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau’r DU**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Dr Paul Cairney, Uwch-ddarlithydd mewn gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol, Prifysgol Aberdeen.

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma i’r ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau’r DU.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**10 Hydref 2011**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-07-11)**

**CLA43**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi, yng Nghymru, Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 ("Rheoliad Rheolaeth yr UE"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gorfodi, yng Nghymru, Reoliad y Comisiwn Rhif 142/2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC o ran samplau ac eitemau penodol a eithrir o wiriadau milfeddygol wrth y ffin o dan y Gyfarwyddeb honno ("Rheoliad Gweithredu'r UE"), ac sy'n rhoi atodiad technegol i'r rheoliadau hynny o reoliad rheolaeth yr UE. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Sgilgynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**Rhinweddau: craffu**

Bu Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Trydydd Cynulliad (y Pwyllgor) yn ystyried *"Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011"* (CA553) ar 17 Mawrth 2011. Mae'r rheoliadau sydd gerbron y Pwyllgor ar hyn o bryd (Rheoliadau Rhif 2) yn dirymu ac yn disodli'r rheoliadau blaenorol (y rheoliadau gwreiddiol).

Roedd y rheoliadau gwreiddiol, pan y'u cyflwynwyd, yn torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau nad oedd "bwlch gorfodi" rhyngddynt a chyfundrefn orfodi flaenorol. Adroddodd y Pwyllgor ynghylch nifer helaeth o ddiffygion technegol yn y rheoliadau gwreiddiol yn ogystal â phwyntiau ehangach ar rinweddau'r rheoliadau. Nid oes fawr o

amheuaeth bod nifer o'r diffygion technegol, gan gynnwys y ffaith mai yn Saesneg y lluniwyd y rheoliadau, wedi'u hachosi gan y ffaith iddynt gael eu gwneud ar fyrder.

Roedd y rheoliadau gwreiddiol hefyd yn codi pwyntiau rhinweddau sylweddol gan gynnwys pryderon ynghylch hawliau dynol a'r hawl eithaf dilyffethair i gael mynediad i dai annedd preifat a phryderon ynghylch cymesuredd y cosbau y gellir eu rhoi o dan y rheoliadau. Mae adroddiad y Pwyllgor ar y rheoliadau gwreiddiol wedi'i atodi er gwybodaeth.

Ar y llaw arall, mae'r Pwyllgor yn falch o nodi nad oes diffygion technegol wedi'u nodi o ran rheoliadau rhif 2, sy'n cael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn falch o nodi bod rheoliadau rhif 2 bellach yn cynnwys darpariaethau sy'n diogelu perchnogion tai preifat drwy'r ddarpariaeth benodol bod angen cael gwarant i orfodi'r hawl i gael mynediad.

Er bod y cosbau yn rheoliadau rhif 2 yr un peth â'r rheiny yn y rheoliadau gwreiddiol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod y cosbau yr un fath â'r rhai a ddefnyddir yn Lloegr ac y gallai methu â chydymffurfio â darpariaethau'r rheoliadau arwain at risgiau difrifol i iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae'r cosbau'n adlewyrchu difrifoldeb y risg hwn ac mae'r Pwyllgor yn fodlon derbyn barn y Llywodraeth ar y pwynt hwnnw.

Ar sail pryder y Pwyllgor blaenorol ynghylch y rheoliadau gwreiddiol, creda'r Pwyllgor ei bod yn bwysig nodi'n gyhoeddus nad yw'r pryderon hyn yn berthnasol i reoliadau rhif 2.

Cytuna'r Pwyllgor felly i adrodd y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar y sail eu bod yn codi materion o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. [Rheol Sefydlog 21.3(ii)]

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Hydref 2011**

**Atodiad i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch CLA43 (Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011)**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**CA553**

**Teitl: Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi yng Nghymru Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflwyno rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta, ac maent hefyd yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 ("Rheoliad Rheoli'r UE"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gorfodi yng Nghymru Reoliad Rhif 142/2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n cyflwyno rheolau mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta, ac maent hefyd yn gweithredu Cyfarwyddeb 97/78/EC y Cyngor o ran amryw o samplau ac eitemau a eithrir o archwiliadau milfeddygol ar ffiniau gwlad o dan y Gyfarwyddeb honno ("Rheoliad Gweithredu'r UE") ac sy'n rhoi atodiad technegol i'r rheoliadau hynny o Reoliad Rheoli'r UE.

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:

**1.** Mae darpariaethau rheoliad 24 (Pwerau mynediad a phwerau ychwanegol) yn caniatáu i berson awdurdodedig gael mynediad i fangre ar unrhyw adeg resymol at ddibenion sicrhau cydymffurfio â Rheoliad Rheoli'r UE, Rheoliad Gweithredu'r UE a'r Rheoliadau hyn. Mae'r diffiniad o "mangre" yn y Rheoliadau hyn yn cynnwys "unrhyw fangre ddomestig". Nid yw rheoliad 24 yn datgan yn benodol y dylid gwneud cais am warant yn unol â rheoliad 25 cyn arfer y pwer mynediad o dan reoliad 24, ac nid yw hynny ychwaith yn ymhlyg. O ganlyniad, ymddengys bod gan berson bŵer i gael mynediad i fangre ddomestig heb wneud cais am warant o dan reoliad 25.

**1.1** Heb y cam diogelu o'i wneud yn ofynnol gwneud cais am warant cyn y gall person awdurdodedig gael mynediad i fangre ddomestig, gallai'r rheoliad fod yn torri erthygl 8 o Gonfensiwn Hawliau Dynol

Ewrop ("yr ECHR"), sy'n rhoi'r hawl i berson gael parch am ei fywyd preifat, ei fywyd teuluol, ei gartref a'i ohebiaeth, ac adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"), sy'n datgan nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth nad yw'n gydnaws ag unrhyw rai o Hawliau'r Confensiwn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn codi materion tebyg i'r rhai a adroddwyd i'r Pwyllgor mewn cysylltiad â Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 ("y Rheoliadau Wyau"), ynghylch y posibilrwydd o gael mynediad heb warant. Gellir cymharu'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliadau Wyau â Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009. Er nad oedd darpariaeth debyg ynddynt, roedd Rheoliadau 2009 yn dibynnu ar y pŵer mynediad a geir yn adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cael gwarant gan ynad a ddylai gael ei fodloni ynghylch rhai gofynion cyn y byddai'n caniatáu arfer y pŵer mynediad. Nid yw'n glir pam nad yw'r un cam diogelu yn gymwys i'r ddarpariaeth ynghylch y pŵer i gael mynediad yn y Rheoliadau hyn, na pham y cafodd ei hepgor.

(Rheol Sefydlog 15.2(i) – "ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw'n *intra vires*".)

Gweler pwynt adrodd pellach 1 o dan Reol Sefydlog 15.3 sy'n ymdrin â phwyntiau adrodd ar ragoriaethau.

(Fel arall, efallai mai bwriad rheoliad 25 oedd darparu cam diogelu o'r fath, ond, os felly, mae'r diffyg esboniad clir ar wyneb y Rheoliadau yn achos o waith drafftio diffygiol y gellir ei adrodd o dan Reol Sefydlog 15.2(vi).

**2.** Mae paragraff 60 o Atodlen 2 (Diwygiadau canlyniadol) yn ceisio diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 ("Rheoliadau 2011"). Mae Rheoliadau 2011 ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac nid ydynt eto wedi cael eu gosod gerbron y Senedd na Chynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 2(8) a 2(9)(d) ac (e) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, para 2(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 59(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er mwyn eu cymeradwyo drwy benderfyniad. O ganlyniad, nid ydynt eto wedi cael eu gwneud fel offeryn statudol drafft y DU.

**2.1** Mae adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978 yn datgan os bydd Deddf yn rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, y bydd yn ymhlyg ei bod yn rhoi'r pŵer i ddiwygio unrhyw offeryn a wneir o dan y pŵer, oni bai ei bod yn nodi bwriad i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, gan mai ar ffurf ddrafft yn unig y mae Rheoliadau 2011, ac nad ydynt wedi'u gosod na'u gwneud eto, mae'n amheus a fyddai pŵer o'r fath yn ymhlyg yn yr achos hwn. O ganlyniad, gellir diwygio Rheoliadau 2011 cyn eu gosod a'u gwneud yn gywir fel offeryn statudol.

(Rheolau Sefydlog 15.2(i) a (ii) – “ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw’n *intra vires*”; a “ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi’i wneud neu y mae i'w wneud odano”.)

**3**. Dim ond yn y Saesneg y darperir y Rheoliadau hyn.

(Rheol Sefydlog 15.2(ix) – “nad yw wedi’i wneud neu i’w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg”.)

**4**. Oherwydd testun coll, nid yw rheoliad 8 (Canolfannau casglu ar gyfer bwydo mewn cysylltiad ag Erthygl 18(1) o Reoliad Rheoli’r UE) yn glir. Ai ‘for’ yw’r gair coll rhwng “a processing plant for Category 2 material is authorised as a collection centre for Category 2 material” a **[for]** “the purposes of Article 18(1) of the EU Control Regulation…”.

(Rheol Sefydlog 15.2(vi) – “ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol”.)

**5**. Nid yw paragraff (a) o Reoliad 12 (Hysbysiadau awdurdod cymwys mewn perthynas â chofrestru) yn darllen yn gywir ac, oherwydd hynny, mae diffyg eglurder, gan fethu â chadarnhau darpariaethau hysbysu effeithiol ynghylch y gweithredwr.

**6**. Mae paragraff 1 o reoliad 16 (Y weithdrefn apelau) yn cyfeirio, yn anghywir, at wneud “hysbysiad” yn rheoliad 15(2), yn hytrach na “penderfyniad”.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – “ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol”.)

**7**. Mae is-baragraff (b) paragraff (1) o reoliad 21 (Yr awdurdod gorfodi) yn cyfeirio at Ddeddf 1984 (y cyfeirir ati unwaith yn unig) heb ei diffinio tan baragraff (6) sy’n ymddangos yn y dudalen ddilynol. O ganlyniad, o gofio mai dim ond unwaith y cyfeirir at Ddeddf 1984 ac y caiff ei diffinio ar y dudalen ddilynol, mae’r cyfeiriad at y Ddeddf fel Deddf 1984 yn ddiangen a gellir rhoi’r diffiniad y tro cyntaf y mae’n ymddangos er mwyn rhoi eglurder i’r darllenydd.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – “ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol”.)

**8.** Mae Atodlen 1 (Gofynion sgil-gynhyrchion anifeiliaid), paragraffau 9 a 10, yn cyfeirio at “Registration of operators, establishments and plants” ac “Approval of establishments and plants” yn y drefn honno,

pan ddylai'r darpariaethau gyfeirio at "Registration of operators, establishments **or** plants" ac "Approval of establishments **or** plants" yn y drefn honno er mwyn adlewyrchu teitlau priodol Erthyglau 23 a 24 o Reoliad Rheoli'r UE.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**9.** Mae Atodlen 1 (Gofynion sgil-gynhyrchion anifeiliaid), paragraff 11 yn cyfeirio at "General hygiene conditions" ond teitl cywir Erthygl 25 o Reoliadau Rheoli'r UE y cyfeiria ato yw "General hygiene requirements".

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**10.** Mae colofn 3 o baragraff 23 (Rheoli dosbarthu) o Atodlen 1 (Gofynion sgil-gynhyrchion anifeiliaid) yn cyfeirio yn anghywir at Reoliad Rheoli'r UE er bod yr Erthyglau y cyfeiria colofn 3 atynt (Erthyglau 11, 12 a 31 yn y drefn honno) yn ymwneud â Rheoliad Gweithredu'r UE mewn gwirionedd.

**11.** Mae paragraff 17(b) o Atodlen 2 (Gofynion sgil-gynhyrchion anifeiliaid) sy'n diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 ("Rheoliadau Anifeiliaid 1996") yn cyfeirio at baragraff 15 fel y paragraff gofynnol sy'n ymdrin ag anifeiliaid hela gwyllt, ond rhif y paragraff sy'n ymdrin ag anifeiliaid hela gwyllt yn Rheoliadau 1996 yw paragraff 13. Mae'r paragraff yn Atodlen 3 o Reoliadau 1996 sy'n ymdrin ag anifeiliaid hela gwyllt wedi'i rifo'n anghywir fel paragraff 13. Dylai fod eisoes wedi'i rifo fel paragraff 15, felly, yn y lle cyntaf, mae angen diwygio'r paragraff i roi'r rhif cywir iddo, sef 15, cyn y bydd y diwygiad presennol a gynigir gan reoliad 17(b) yn y Rheoliadau presennol yn gweithredu'n effeithiol.

(Rheol Sefydlog 15.2(vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**12.** Mae paragraph 19 o Atodlen 2 o'r Rheoliadau hyn, sy'n diwygio Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006"), yn cyfeirio at fewnosodiad i erthygl 2(1) (Dehongli) o Orchymyn 2006, ond yr erthygl gywir sy'n ymdrin â darpariaethau dehongli yng Ngorchymyn 2006 yw erthygl 3.

(Rheol Sefydlog 15.2(vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".

**13**. Nid yw ffurf y geiriad y mae'n angenrheidiol ei disodli yn ôl paragraff 20 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn gan ffurf newydd o fewn erthygl 26 (Lladd; Rheoli deunydd ysgarthol) o Orchymyn 2006 yn bodoli eisoes yn ei chyfanrwydd o fewn erthygl 26. Mae paragraff 20 yn datgan mai'r geiriad presennol o fewn erthygl 26 yw hyn: "point 5 of Section II in Part A of Chapter III of Annex VIII to Regulation (EC) No. 1774/2002 of the European Parliament and of the Council laying down health rules concerning animal by-products not intended for human consumption, as amended". Fodd bynnag, dyma'r geiriad cywir: "point 5 of Section II in Part A of Chapter III of Annex VIII to Regulation (EC) No. 1774/2002 and under the authority of a licence granted by the National Assembly of Wales".

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**14**. Mae paragraffau 21 i 23 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, sy'n disodli un ffurf o eiriau am ffurf newydd o fewn Gorchymyn 2006, yn cyfeirio at y geiriad sydd i'w ddisodli fel y'i diwygiwyd - "as amended". Er enghraifft, mae paragraff 21 yn disodli'r geiriau, "Regulations (EC No. 1774/2002, as amended", er nad yw'r geiriau "as amended" i'w cael yn erthygl 27(2)(c) ("Lladd: ynysu pethau sy'n debygol o ledaenu clefyd"). O ganlyniad, ni chaiff amcanion y disodli eu cyflawni. Ni chaiff Rheoliad (EU) Rhif 1069/2009, sy'n disodli EC Rhif 1774/2002 pan gaiff ei fewnosod, ei fewnosod fel y'i diwygiwyd - "as amended".

Mae disodli fel hyn yn digwydd naw gwaith o fewn Gorchymyn 2006 a byddant yn methu bob tro gan nad ydynt yn gywir.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**15**. Mae paragraff 27 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, sy'n diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau Mewnforio ac Allforio Anifeiliaid 2006"), yn rhoi darpariaeth newydd yn lle paragraff 7 (Gwastraff anifeiliaid) yn Rhan 1 o Atodlen 3 i Reoliadau Mewnforio ac Allforio Anifeiliaid 2006. Mae'r ddarpariaeth newydd wedi ei rhifo'n anghywir fel paragraff 8. Gan ei bod yn mynd yn lle paragraff 7, dylai hefyd gael ei rhifo'n baragraff 7.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**16**. Mae paragraff 41 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at is-baragraff (1) o fewn paragraff (2) o erthygl 14 o Orchymyn Ffliw Adar

(H5N1 mewn Dofednod) (Cymru) 2006 (Gorchymyn Adar 2006), sydd i fynd yn lle paragraff 2 presennol erthygl 14. Mae is-baragraff 2 yn datgan na chaniateir i archwilydd milfeddygol nac i archwilydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd archwilydd milfeddygol roi na chyfarwyddo rhoi trwydded o dan is-baragraff (1). Nid yw is-baragraff (1) o baragraff (2) o erthygl 14 yn cyfeirio at roi na chyfarwyddo rhoi trwyddedau, ac felly mae'r cyfeiriad at is-baragraff (1) yn anghywir.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**17.** Cyfeiria Atodlen 3, colofn 1 o'r Rheoliadau hyn at Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) "200", sydd i'w dirymu. O ganlyniad, nid yw'n hysbys pa Reoliadau y bwriedir eu dirymu.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) - "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**18.** Nid yw'r Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2006 ("O.S. 2006/376") yn bodoli a / neu mae'r enw a'r cyfeirnod O.S. yn anghywir. Mae O.S. 2006/376 yn cyfeirio at "Penalty Charges (Exemption from Criminal Proceedings) Regulations (Northern Ireland) 2006" a'r "Stirling (Electoral Arrangements) Order 2006" yn y drefn honno. O ganlyniad, nid yw'n sicr pa Reoliadau y bwriedir eu dirymu.

(Rheol Sefydlog 15.2 (vi) – "ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol".)

**Rhagoriaethau: Craffu**

O dan Reol Sefydlog 15.3, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:

1. **Pŵer i gael mynediad: Goblygiadau hawliau dynol**

Mae'r pwynt adrodd hwn wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bwriadwyd drafftio rheoliadau 24 a 25 fel y maent yn ymddangos. Os oedd yn fwriad gwneud rheoliad 24 yn ddarostyngedig i reoliad 25, mae'r broblem yn ymwneud â'r drafftio yn hytrach na'r bwriad, a dylid cywiro'r drafftio cyn i'r pŵer gael ei gamddefnyddio.

Rhaid i'r weithred o chwilio tŷ annedd heb warant o dan reoliad 24 o'r Rheoliadau hyn fod yn gyfreithiol er mwyn cyflawni'r amcan a fwriadwyd. Nid yw'r pŵer i gael mynediad o fewn rheoliad 24 yn gwneud y mynediad yn ddibynnol ar wneud cais am warant o dan

reoliad 25, ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad i feddiannydd y tŷ annedd cyn hynny ychwaith. Gellir cymharu'r ddarpariaeth hon â Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 sy'n gofyn am roi cyfnod o rybudd sydd heb fod yn llai na 24 awr i'r meddiannydd. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hynny, pe na bai'r meddiannydd yn bresennol yn y fangre pan roddwyd yr hysbysiad, byddai'n bosibl na chafodd unrhyw hysbysiad o'r bwriad i gael mynediad, a byddai hynny gyfystyr â mynnu'r pŵer mynediad fel hawl, fel yn y Rheoliadau hyn.

**1.2.** A yw'r mynediad a'r amharu ar breifatrwydd gymesur â'r nod cyfreithiol? Y nod cyfreithiol yma yw sicrhau cydymffurfio â'r Rheoliadau, a thrwy hynny atal trosedd. Byddai person sy'n euog o dorri rheoliad 17(1) (Tramgwydd mewn perthynas â Rheoliad Rheoli'r UE) a 18 (Tramgwydd rhwystro) o dan reoliad 20 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol, neu i'w garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis, neu i'r ddau; neu, o'i gollfarnu ar dditiad, byddai'n agored i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd, neu i'r ddau.

**1.3** Felly a yw'r pŵer i gael mynediad i dŷ annedd heb warant a heb rybudd gymesur â difrifoldeb y drosedd, er enghraifft rhwystro person awdurdodedig? Cymharer, er enghraifft, y sefyllfa pan fydd yr Heddlu yn cael mynediad i eiddo heb warant dim ond os bydd digwyddiad difrifol a pheryglus wedi bod, fel tarfu ar yr heddwch neu rwystro cadw heddwch, gorfodi gwarant arestio, arestio person mewn cysylltiad â thramgwyddau penodol, dal rhywun sydd wedi dianc o'r ddalfa, ac achub bywyd neu atal difrod difrifol i eiddo.

**1.4.** Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y canlynol:

Roedd Cod Ymarfer y Bil Pwerau i gael Mynediad, a oedd yn berthnasol i eiddo preifat yn ogystal ag eiddo busnes, yn datgan hyn: "Any exercise of a power of entry to private property is likely to involve a conflict with the right to private life guaranteed by Article 8 of the ECHR." Dim ond pan fydd ei angen i gyflawni ei amcanion y dylid defnyddio pŵer i gael mynediad heb gydsyniad, a rhaid i'r ffordd y defnyddir y pŵer fod cymesur â'r diben hwnnw. Nid yw'r Bil wedi dod yn gyfraith, ond y bwriad oedd iddo ddarparu ar gyfer rheoleiddio'r pŵer i gael mynediad mewn cysylltiad â'r ddeddfwriaeth gynradd a'r is-ddeddfwriaeth a ragnodwyd ynddo.

**1.5** Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn edrych yn ddifrifol ar bwerau mynediad, chwilio a chipio. Mae'r pwerau hyn yn ymyrryd â bywydau pobl, ac er mwyn cyflawni gofynion erthygl 8(2) o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, rhaid cael cyfiawnhad clir bod angen ymyrryd â hawl person i gael parch am ei fywyd preifat a'i gartref. Rhaid i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y pwerau hyn ddarparu digon o gamau diogelu effeithiol, felly, i sicrhau nad yw'r pŵer yn cael ei gamddefnyddio yn

ymarferol. Bydd y ffaith a yw'r camau diogelu yn y Bil yn ddigon i fodloni gofynion erthygl 8(2) o'r Confensiwn yn dibynnu ar natur, cwmpas a hyd y pwerau mynediad, chwilio a chipio arfaethedig, amgylchiadau eu hawdurdodi, yr unigolion a awdurdodir i'w harfer, a'r rhwymedïau sydd ar gael gan ddeddf gwlad. Rhaid i unrhyw unigolyn y mae'r pwerau hyn yn cael effaith andwyol arno allu cael mynediad i ddull effeithiol o unioni'r cam honedig a wnaed o ran unrhyw un o'i hawliau o dan y Confensiwn, fel y'i gwarentir gan erthygl 13 ohono.

**1.6** Canfu'r Cyd-bwyllgor a oedd yn ystyried Bil y Llysoedd, Tribiwnlysoedd a Gorfodi wedyn ei fod yn cynnig y gallai asiant gorfodi ardystiedig, mewn rhai amgylchiadau, gael mynediad i unrhyw fangre berthnasol heb warant. [99] Ystyr mangre berthnasol yw unrhyw fangre y mae'r asiant gorfodi yn credu'n rhesymol y mae'r dyledwr yn byw yno fel arfer, neu'n masnachu neu'n cynnal busnes yno (gan gynnwys mangre trydydd parti). Os yw'n fwriad cyfyngu'r pwerau i gael mynediad heb warant i'r fangre y cyfeirir ati yn y dyfarniad, gwarant neu writ perthnasol, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai hynny gael ei fynegi'n glir ar wyneb y Bil. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r Bil i'r perwyl hwnnw a dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau na chaiff y pwerau statudol newydd hyn eu camddeall na'u camliwio, a hynny er mwyn diogelu hawliau teuluoedd y dyledwyr a thrydydd partïon yn erbyn ymyrraeth ddiangen neu anghymesur â'u hawl i gael parch am eu bywydau preifat.

**1.7** Roedd y Pwyllgor yn croesawu gwelliant y Llywodraeth er mwyn egluro nad oedd defnyddio grym i gael mynediad eto i fangre a ddefnyddir i fasnachu neu i gynnal busnes heb warant yn ymestyn i ddefnyddio grym i gael mynediad i fangre na gwneud dim mewn mangre. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'r gwelliant yn sicrhau na fyddai unrhyw asiant gorfodi ardystiedig yn defnyddio grym rhesymol i gael mynediad i fangre a ddefnyddir yn llwyr neu'n rhannol fel eiddo preswyl heb gael awdurdod barnwrol o flaen llaw, ac y byddai'r gwelliant yn werthfawr gan y byddai'n diogelu hawliau dyledwyr a thrydydd partïon i gael parch am eu bywydau preifat a'u cartrefi, fel y'i gwarantir gan erthygl 8 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop.

**1.8** Gan gadw'r uchod mewn cof, efallai na fydd chwilio tŷ annedd preifat heb warant yn unol â rheoliad 25 o'r Rheoliadau hyn yn gymesur er mwyn sicrhau nod cyfreithiol o dan y Rheoliadau hyn. O ganlyniad, gallai fod yn anghymesur i'r nod cyfreithiol a fwriadiwyd a gall fod yn torri erthygl 8 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop.

## 2. Oedi, torri'r rheol 21 diwrnod a darparu Rheoliadau yn Saesneg yn unig

Mae'r Rheoliad Ewropeaidd y bwriedir i'r Rheoliadau hyn eu gorfodi yn dyddio o fis Chwefror 2009 ac, o ganlyniad, mae dwy flynedd wedi mynd heibio pan fyddai deddfwriaeth wedi gallu cael ei gweithredu i

roi effaith i ddibenion Rheoliad 2009 yr UE ("y Rheoliad Rheoli"). Er gwaethaf hyn, mae'r Rheoliadau hyn wedi torri'r rheol 21 diwrnod. Cafodd ymateb y Gweinidog i hyn ei roi mewn llythyr, dyddiedig 3 Mawrth 2011, a anfonwyd at y Llywydd, ac sy'n datgan "the requirement to breach the 21 day rule arises primarily because of delays in finalising the Implementing Regulations at an EU level, combined with further delays in finalising the legal text of the draft Statutory Instrument." Daeth Rheoliad Rheoli'r UE a Rheoliad Gweithredu'r UE i rym ar 4 Mawrth 2011. Fodd bynnag, gan wybod fod y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw, nid yw'n eglur pam na chafodd y Rheoliadau hyn eu paratoi a'u gosod yn gynharach er mwyn osgoi torri'r rheol 21 diwrnod.

**2.1** Mae paragraff 4.13.2 o'r cylchlythyr Ymarfer Offerynnau Statudol (pedwerydd argraffiad, mis Tachwedd 2006) yn datgan bod y cyfnod 21 diwrnod i'w drin fel y cyfnod byrraf cyn y daw offeryn i rym. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan hyn: "due to the public and animal health risks associated with a prolonged enforcement gap, it is necessary to breach the 21 day rule and produce the S.I. in English only in this instance."

2.2 Ar y llaw arall, pan fydd offeryn yn creu tramgwyddau, fel yn yr achos hwn, mae'r rheol 21 diwrnod yn arbennig o bwysig gan ei bod yn rhoi ychydig o sicrwydd y gall aelodau o'r cyhoedd ddod yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol cyn iddynt ddod i rym. Yn yr achos hwn, cafodd y Rheoliadau eu gwneud ar 2 Mawrth a daethant i rym ddeuddydd yn ddiweddarach. Wrth i'r adroddiad drafft hwn gael ei baratoi ar 14 Mawrth, nid yw'r Rheoliadau hyn o hyd wedi'u cyhoeddi, ac felly nid oes gan unigolion unrhyw ffordd o wybod y gallent fod yn ymddwyn yn anghyfreithiol.

**3. Anghymesuredd y gosb**

Nid yw rheoliad 20 (Cosbau) o'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu ar y cosbau mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r tramgwyddau hyn. Felly, gallai person a gaiff ei gollfarnu o dramgwydd ddiannod yn unig o dan reoliad 18(a) (Tramgwydd rhwystro) gael dirwy o swm hyd at yr uchafswm statudol (sef £5,000) neu ei garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis, neu'r ddau. Er mwyn cymharu, yn ogystal â chael ei garcharu am gyfnod (a arferai fod yn un mis, ond sydd bellach yn 51 wythnos ers Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003) gallai person a gaiff ei gollfarnu o'r dramgwydd ddiannod o rwystro'r heddlu'n fwriadol o dan adran 89 o Ddeddf yr Heddlu 1996 gael dirwy hefyd heb fod yn uwch na lefel 3, sy'n cyfateb i £1,000. Mae gwahaniaeth sylweddol yn swm y dirwyon y gellir eu rhoi am dramgwyddau tebyg. A yw'r gosb yn anghymesur â'r dramgwydd a gyflawnwyd?

**Janet Ryder AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**17 Mawrth 2011**

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011**

"Cafodd y Rheoliadau eu gwneud ar fyrder yn ôl cyfarwyddiadau penodol Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw fwlch gorfodi rhwng dirymu Rheoliad EC 1774/2002 (ynghylch materion sy'n ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid) a phan fyddai'r rheoliad a'i olynodd, Rheoliad EC 1069/2009, yn dod i rym ar 4 Mawrth 2011. Pe bai bwlch gorfodi wedi bod, byddai rhai gweithgareddau a oedd yn agored i gosbau troseddol o dan Reoliad EC 1069/2009 o 4 Mawrth 2011 ymlaen wedi osgoi bod yn destun erlyniad. Yn ychwanegol, byddai bwlch gorfodi wedi rhoi Gweinidogion Cymru mewn perygl y byddai'r Comisiwn wedi dwyn achos yn eu herbyn am dorri cyfraith Ewropeaidd.

Bwriad y llywodraeth oedd gwneud y Rheoliadau ar fyrder yn Saesneg yn unig gan dorri'r rheol 21 o ddiwrnodau i sicrhau na fyddai unrhyw fwlch gorfodi. Y bwriad bob amser oedd i'r Rheoliadau uniaith Saesneg hyn fod yn fesur byrdymor dros dro, a fyddai'n cael ei ddilyn cyn gynted ag y byddai modd gan Reoliadau dwyieithog a fyddai'n dirymu'r Rheoliadau uniaith Saesneg. Bydd y Rheoliadau dwyieithog yn adlewyrchu i raddau helaeth Reoliadau DEFRA (pan fydd y rheini'n dod i rym yn Lloegr) er mwyn sicrhau bod darpariaethau gorfodi yn gyffredin eu natur drwy'r Aelod-wladwriaeth gyfan. Nid yw'n hysbys eto pryd y daw Rheoliadau DEFRA i rym, ond o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu gweithredu'n hwyr, mae bwlch gorfodi yn Lloegr ar hyn o bryd.

Mae'r llywodraeth yn dymuno pwysleisio yr oedd gwneud yn siŵr nad oedd unrhyw fwlch gorfodi drwy ddod â'r Rheoliadau i rym ar 4 Mawrth 2011 yn hanfodol i sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd anifeiliaid a iechyd dynol o faterion a oedd yn ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl. Gallai risgiau o'r fath fod wedi bod yn ddifrifol ac os byddai deddfwriaeth heb gael ei gweithredu, ni fyddai wedi bod modd gorfodi cosbau yn erbyn toriadau o'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd."